

Rheolau ac Amodau

Rules and Regulations

1. Enw'r Gymdeithas yw Cymdeithas Amaethyddol a Garddwriaethol Talybont a Gogledd Ceredigion, ac mae'n cynnwys Llywydd, Is-lywydd, Noddwyr, Cadeirydd, Trysorydd, Ysgrifenyddion ac Aelodau, sy'n cynnal ei Sioe yn Nhalybont. Bydd y Sioe yn agored i bawb oni nodir fel arall.
That the Society be called the Talybont and North Ceredigion Agricultural and Horticultural Society, and it consists of the President, Vice-President, Patrons, Chairman, Treasurer, Secretaries and Members, holding its Show at Talybont. The Show to be open to all comers except where otherwise stated.
2. Nod y Gymdeithas yw annog gwella Da Byw, Amaethyddiaeth, Garddwriaeth, ayyb.
The object of the Society is to encourage the improvement of Livestock, Agriculture, Horticulture, etc.
3. Bydd pob un sy'n cyfrannu £8.00 neu'n fwy y flwyddyn yn dod yn Aelod o'r Gymdeithas. Bydd Aelodau sy'n cyfrannu £12.00 neu'n fwy y flwyddyn yn dod yn Is-lywyddion y Gymdeithas.
Every subscriber of £8.00 and upwards per annum shall become a Member of the Society. Members subscribing £12.00 or more per annum shall become Vice-Presidents of the Society.
4. Bydd y cyfraniadau yn ddyledus ac yn daladwy ar 1 Ionawr bob blwyddyn ac er mwyn sicrhau ffioedd mynediad gostyngol a breintiau eraill, rhaid eu talu erbyn 31 Gorffennaf.
Subscriptions shall be considered due and payable on the 1st January in each year and to obtain reduced entry fees and other privileges, they must be paid by 31st July.
5. Bydd yr holl aelodau yn derbyn trwydded mynediad am ddim i faes y sioe, a ffioedd mynediad am hanner pris os ydynt yn cystadlu yn yr Adran Da Byw.
All members will receive a free admission pass to the showground, and half entry fees if exhibitors in Livestock Section.
6. Bydd yr holl eitemau yn eiddo dilys i'r cystadleuwr neu ar brydles iddo am gyfnod o 2 fis cyn cystadlu. Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ofyn am gael gweld y les honno a dadansoddiad y Gymdeithas a fydd yn derfynol.
All exhibits to be bona fide property of the exhibitor or leased to him for a period of 2 months prior to entry. The Society reserves the right to call for production of said lease and its interpretation shall be final.
7. Bydd unrhyw gystadleuydd a fydd yn ennill gwobr trwy dwyll yn colli'r hawl i'r wobr neu'r gwobrau i gyd y mae ganddo hawl iddynt ac fe'i gwaherddir rhag cystadlu yn y dyfodol.
Any exhibitor obtaining a prize fraudulently will forfeit the whole prize or prizes he may be entitled to and shall be prohibited from exhibiting in future.
8. Os bydd unrhyw anghydfod yn codi, rhaid i'r achwynydd gyflwyno £5.00 i'r Ysgrifennydd gyda'i gwê yn ysgrifenedig. Bydd yr Ysgrifennydd yn adrodd unrhyw wrthwynebiad o'r fath wrth y Pwyllgor, a phenderfyniad y Pwyllgor a fydd yn derfynol. Os yw'r gwrthwynebiad yn cael ei gefnogi, bydd y blaendal yn cael ei roi yn ôl i'r unigolyn, ond os yw'n cael ei ystyried yn un di-sail, collir y £5.00 a'i drosglwyddo i gronfa'r Gymdeithas. Rhaid cyflwyno unrhyw brotestiadau neu wrthwynebiadau (os oes unrhyw un) o fewn awr i gwblhau beirniadu'r Dosbarth y mae'r gwrthwynebiad yn cyfeirio ato. Should any dispute arise, the complainant must lodge £5.00 in the hands of the Secretary with his written complaint. The Secretary will report such an objection to the Committee whose decisions shall be final. If the objection is upheld, the deposit shall be returned to the depositor, but if it is considered frivolous, the £5.00 is to be forfeited to the funds of the Society. Protests and objections (if any) must be made within one hour of the completion of judging of the Class to which the objection refers.
9. Mae gan y Pwyllgor y pŵer i ddiarddel unrhyw unigolion sy'n creu aflonyddwch ar Faes y Sioe.
The Committee have powers to eject any persons who create a disturbance from the Show Field.
10. Bydd beirniadu'r Ceffylau yn cychwyn am 9.00 am, Gwartheg am 10.00 am, ac Adrannau Da Byw eraill am 10.30 am.

Judging of Horses to commence at 9.00 am, Cattle 10.00 am, and other Livestock Sections at 10.30 am.

11. Ni ddylid symud unrhyw arddangosyn cyn 4.30 pm.
No exhibit to be removed before 4.30 pm.
12. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r hawl i atal unrhyw wobrau, os, ym marn y beirniad, nad oes teilyngdod.
The Committee reserves the right to with-hold any prize, if in the opinion of the Judges sufficient merit is not shown.
13. Bydd Maes y Sioe ar agor i'r cyhoedd am 8.30 am.
The Show Yard will be open to the public at 8.30 am.
14. Bydd un unigolyn yn cael mynediad am ddim i Faes y Sioe gyda phob arddangosyn yn yr Adrannau Ceffylau, Gwartheg a Defaid.
One attendant will be admitted free to the Show Ground with each exhibit in the Horses, Cattle and Sheep Sections.
15. Gwaherddir arddangoswyr rhag gweithredu fel Stiwardiaid ar gyfer unrhyw adran y maent yn cystadlu ynddi.
Exhibitors are prohibited from acting as Stewards for any section in which they have an entry.
16. Rhaid cadw'r holl Dda Byw dan reolaeth briodol.
All Livestock must be under proper control.
17. Rhaid cneifio'r defaid ar 1 Mawrth neu ar ôl hynny, yn unol â Rheolau Cymdeithas Llyfr Diadell Fynydd Gymreig.
Sheep must be shorn bare on or after March 1st, in accordance with the Rules of Welsh Mountain Flock Book Societies.
18. Ni fydd y Gymdeithas yn mynd i unrhyw gostau nac yn cymryd unrhyw risg wrth dderbyn neu ddychwelyd arddangosyn.
No expense or risk will be incurred by the Society either in reception or returning of exhibit.
19. Ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw stoc neu eitem neu am unrhyw golled neu anaf i unrhyw unigolyn ar Faes y Sioe.
That the Society will not be liable for any loss or damage to any stock or article or for any loss or injury to any persons on the Show Field.
20. Rhaid gorymdeithio ac arddangos y Ceffylau a'r Gwartheg gyda'u tocynnau rhif a chardiau dyfarnu i'w gweld arnynt yn ystod y Sioe.
Horses and Cattle must be paraded and exhibited with number tickets and award cards affixed during the Show.
21. Caniateir un tocyn mynediad am ddim i bob cystadleuwr yn yr Adran Garddwriaeth a Chynnyrch os ydynt wedi gwario £7.50 neu'n fwy wrth gystadlu.
One free admission ticket will be allowed to every exhibitor in the Horticultural and Produce Section with entries to the value of £7.50 and over.
22. Telir yr holl wobrau i'r cystadleuwyr llwyddiannus ar ddiwrnod y Sioe.
All prize money to be paid to the successful competitors on the day of the Show.
23. Rhaid i'r holl gystadleuwyr hysbysu'r Ysgrifennydd yn ysgrifenedig, ynghyd â'r ffi cystadlu, ar Ddydd Mercher 22 Awst neu cyn hynny, ac eithrio'r Dosbarthiadau Cŵn a fydd ar agor ar y maes. Os derbynnir cystadleuwyr hwyr (gan eithrio ceffylau) bydd y ffi cystadlu yn DYBLU y tâl.
All entries must be made in writing to the Secretary, accompanied by entry fee, on or before Wednesday 22 August, except Dog Classes which will be taken on the field. Any late entries (excluding horses) DOUBLE entry fee.
24. Bydd y system pwyntiau'r un peth yn yr Adran Da Byw â'r Adran Garddwriaeth.
The livestock points system will be the same as for Horticultural section.
25. Rhaid gwisgo hetiau caled bob amser os yn marchogaeth.
Hard hats to be worn at all times, when mounted.
26. Ni fydd clwm cyfartal am Gwpan/Tlws yn cyfrif tuag at berchenogaeth.
A tie for a Cup/Trophy will not count towards ownership.
27. Caniateir dwy eitem ym mhob dosbarth yn yr Adran Arddwriaeth.
Two entries permitted in each class in Horticultural Section.

28. Cyfrifoldeb perchennog y ceffyl yw sicrhau bod pasborts y ceffylau gyda hwy bob amser.

It is the responsibility of the horse owner to ensure that horse passports are carried at all times.

29. Rhaid i gystadleuwyr da byw fod ag yswiriant TRYDYDD PARTI/ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS digonol i roi sicrwydd am eu harddangosion.

All livestock exhibitors must have adequate THIRD PARTY/PUBLIC LIABILITY insurance to cover their exhibits.

30. Os ydych yn defnyddio gwellt o dan eich anifeiliaid, gofynir yn garedig i chwi ei gludo nôl gyda chwi i'ch cartref/fferm.

If using straw as bedding would you kindly ensure that you take it home with you.

31. Gwarchod Data a Chyhoeddusrwydd

Bydd y Gymdeithas yn defnyddio'ch data i wneud y canlynol:

a) storio, prosesu a chadw, gan gynnwys yn electronig, yr holl ddata a gwybodaeth bersonol a ddarperir gan aelodau, cyfranwyr a chystadleuwyr, at ddibenion gweithredu'r Sioe, cadw a chynnal cofnodion priodol a chyfathrebu â nhw yn y dyfodol ynghylch unrhyw un o weithgareddau'r Gymdeithas;

b) cyhoeddi enwau a lleoliad cartrefi aelodau, cyfranwyr a chystadleuwyr, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i enillwyr gwobrau, yn rhaglenni'r Sioe, ar wefan y Sioe ac mewn manau eraill fel rhan o weithredu a hyrwyddo'r Sioe a sioeau yn y dyfodol;

c) tynnu lluniau o unrhyw gystadleuydd neu unigolyn arall ar Faes y Sioe a chadw a defnyddio'r delweddau sy'n deillio o hynny (gan gynnwys fersiynau wedi'u golygu neu wedi'u newid) ar gyfer unrhyw un o ddibenion masnachol neu anfasnachol y Gymdeithas ym mhob un ac unrhyw gyfrwng, gan gynnwys, heb gyfyngiad, eu defnyddio mewn deunydd hyrwyddo ac ar wefan y Gymdeithas, neu eu darparu i drydydd parti a ddewiswyd yn ofalus i'w defnyddio at eu dibenion eu hunain. Y Gymdeithas fydd yn berchen ar hawlfraint unrhyw ddelweddau o'r fath;

ch) cyhoeddi manylion a chanlyniadau unrhyw anghydfodau a/neu apeliadau.

Trwy arwyddo a chyflwyno ffurflen gystadlu, rydych chi'n cytuno eich bod wedi darllen a deall Rheolau ac Amodau'r Gymdeithas a'r wybodaeth am Warchod Data a Chyhoeddusrwydd a amlinellir uchod.

Data Protection and Publicity

The Society will use your data to do the following:

a) store, process and retain, including electronically, all data and personal information provided by members, subscribers and exhibitors, for the purposes of operating the Show, maintaining appropriate records and communicating with them in future concerning any of the Society's activities;

b) publicise the names and home locations of members, subscribers and exhibitors, including but not limited to prize winners, in Show schedules, on the Show website and elsewhere as part of the operation and promotion of the Show and future shows;

c) photograph any exhibitor or other person on the Show Field and store and use the resulting images (including edited or altered versions) for any of the Society's commercial or non-commercial purposes in all and any media, including, without limitation, use in promotional materials and on the Society's website, or supply to carefully selected third parties for use for their own purposes. The Society shall own the copyright in any such images;

d) publish the details and results of any disputes and/or appeals.

By signing and submitting an entry form, you are agreeing that you have read and understood the Society Rules and Regulations and the Data Protection and Publicity information outlined above.